COFNODION CYFARFOD Y CYD BWYLLGOR AMLOSGFA LLANGRALLO A GYNHALIWYD YN YSTAFELL PWYLLGOR 1 - SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR CF31 4WB DYDD GWENER, 9 MAWRTH 2018, AM 14:00

Presennol

Y Cynghorydd RE Young – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| G Cox | S Edwards | G John | AA Pucella |
| E Venables | JE Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

G Hopkins, JC Spanswick a/ac R Turner

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Adele Ahearn | Cyfrifydd |
| Joanna Hamilton | Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth a Chofrestrydd |
| Michael Pitman | Prentys Busnes Gweinyddol Gwasanaethau Democrataidd |
| Andrew Rees | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |

16. DATGAN BUDDIANNAU

Dim

17. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Cydbwyllgor Amlosgfa Llangrallo ar 15fed Medi 2017 fel rhai gwir a chywir.

18. CYNLLUN BUSNES YR AMLOSGFA A'R FFIOEDD AMLOSGI

Ceisiodd y Clerc a'r Swyddog Technegol gymeradwyaeth ar gyfer y Cynllun Busnes a'r cynllun gwario ar gyfer 2018/2019 a oedd yn cynnwys y cynnydd a gynigir ar gyfer y ffioedd amlosgi.

Dywedodd mai 1620 oedd cyfanswm niferoedd amlosgiadau 2017, sef 995 o Ben-y-Bont, 180 o Fro Morgannwg a 379 o Rondda Cynon Taf a 66 nad oeddent yn breswylwyr. Dywedodd bod cytundeb ag Ysbyty Tywysoges Cymru ar gyfer amlosgi gweddillion ffoetws an-hyfyw, a ychwanegodd 8 amlosgiad cymunol at y cyfanswm. Trefnwyd 11 amlosgiad unigol arall ar gyfer ffoetysau an-hyfyw yn uniongyrchol â'r rhieni.

Dywedodd y Clerc a'r Swyddog Technegol hefyd fod costau Amlosgfa Llangrallo yn ei gosod yn rhif 241 o 284 ar dabl cenedlaethol ffioedd amlosgfeydd yn haf 2017, a luniwyd gan Gymdeithas Amlosgi Prydain. Dywedodd bod y strategaeth ariannu yn y Cynlluniau Busnes blaenorol wedi argymell cynnydd yn y cost amlosgi gyfwerth â chwyddiant a £25 er mwyn sicrhau y ceir arian digonol i gynnal rhaglenni gwella ond y cedwir safle gystadleuol yr amlosgfa. Yn dilyn adolygiad, ni ystyriwyd ei bod yn angenrheidiol gweithredu'r ffi £25, ond, parheir i adolygu hyn yn flynyddol.

Cyflwynodd y Clerc a'r Swyddog Technegol wybodaeth ynghylch cynnig i godi'r cost amlosgi gan lefel chwyddiant, o £636.70 i £662.20 ar sail cynnydd cyffredinol o 4% (1% yn ogystal â'r Mynegai Pris Defnyddwyr yn unol â'r ffigyrau mwyaf diweddar a

gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017). Cyflwynodd gymhariaeth o ffioedd amlosgi cyfredol amlosgfeydd gerllaw.

PENDERFYNWYD Y dylai'r Cydbwyllgor:

1) Cymeradwywyd y Cynllun Busnes Lefel Gwasanaeth 2018/19

2) Cymeradwyo'r ffioedd amlosgi a gyflwynwyd ar gyfer 2018/19

19. RHAGLEN CYFARFODYDD 2018/19

Cyflwynodd Rheolwr a Chofrestrydd y Gwasanaethau Profedigaeth adroddiad i'w gymeradwyo ar gyfer y rhaglen cyfarfodydd a gynigiwyd ar gyfer 2018/2019. Mae Cytundeb Memorandwm Cydbwyllgor Amlosgfa Llangrallo yn nodi y bydd y Cydbwyllgor yn cynnal o leiaf dau gyfarfod ym mhob blwyddyn Cyngor a bydd un o'r rhain yn Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol fydd cyfarfod cyntaf y Cydbwyllgor wedi Cyfarfodydd Blynyddol y cynghorau, lle yr etholir y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd.

Bydd tri chyfarfod ym mlwyddyn 2018/2019 a gynhelir ar y dyddiadau isod:

Dydd Gwener 22 Mehefin 2018, Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac ymweliad safle;

Dydd Gwener 14 Medi 2018

Dydd Gwener 8 Mawrth 2019

PENDERFYNWYD Bod y Cydbwyllgor yn cymeradwyo rhaglen y cyfarfodydd ar gyfer 2018/2019.

20. Y GYLLIDEB REFENIW A GYNIGIR 2018-19

Cyflwynodd y Cyfrifydd adroddiad ar y perfformiad ariannol a ragfynegir ar gyfer yr Amlosgfa yn 2017-18 a cheisiodd gymeradwyaeth gan y Cydbwyllgor ar gyfer y gyllideb a'r ffioedd a chostau a gynigir ar gyfer 2018-19.

Dywedodd y Cyfrifydd mai £35,000 oedd y diffyg cyllidebol a ddisgwylid, fodd bynnag mae'r alldro a ragfynegir ar ddiwedd mis Ionawr dros £44,000 a byddai hyn yn gofyn am drosglwyddo arian o gronfeydd wedi eu clustnodi. Cyflwynodd eglurhad o'r prif wahaniaethau rhwng y Gyllideb a'r Alldro a Ragfynegir, a ddangosodd danwariant o £21,000 ar gyflogeion oherwydd y bu dwy swydd yn wag am ran o'r flwyddyn, felly bu'n rhaid cyflogi Gwasanaethau Diogelwch ychwanegol i gyflenwi yn ystod yr oriau hyn. Roedd gorwariant o £8,000 ar Leoliadau oherwydd gorwariant o £18,000 ar ardrethi busnes ond roedd hefyd tanwariant o £5,000 ar Gynnal a Chadw Dydd i Ddydd a £5,000 ar Nwy. Roedd gorwariant pellach o £2,000 ar Offer, Gwasanaethau a Chludiant, sef gorwariant o £20,000 ar Wasanaethau Diogelwch, yn erbyn arbedion o £10,000 ar Drwsio Offer, £2,500 ar Ddillad Arbedol, £2,500 ar Brynu Offer a £2,100 ar Ffioedd Archwilio. Bu tanwariant yn y Gweinyddu oherwydd costau is Rheoli Cyfleusterau o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Rhoddodd y Cyfrifydd wybod i'r Cydbwyllgor bod y gyllideb Cynnal a Chadw Cynlluniedig yn rhan o'r Costau Ariannu Cyfalafol, lle bu tanwariant o £30,000 oherwydd y bu oedi wrth drwsio'r organ, gwerth £20,000, a thanwariant ar Seilwaith gwerth £10,000. Bwriedir trwsio'r organ yn 2018-19 a byddai angen talu £5,000 yn 2018-19 ar gyfer y taliad cadw sydd i'w dalu am y gwaith seilwaith. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth pa waith trwsio oedd angen ei wneud ar yr organ, a

gomisiynwyd gan y cwmni adnabyddus, NP Mander ym 1970. Dywedodd fod y gwaith trwsio, sy'n hanfodol, wedi ei ohirio yn 2017-18 er mwyn asesu'r strategaeth drwsio a'r fethodoleg caffael yn llawn oherwydd efallai y bydd angen cynnwys y gwneuthurwr organau yn y broses gaffael.

Cadarnhaodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaeth y sefyllfa o ran ffi gyffredinol amlosgi, nad sy'n cael ei godi yn achos plant dan 18 oed.

Rhoddodd y Cyfrifydd fanylion y gyllideb cynnal a chadw cynlluniedig ar gyfer 2017-18 i'r Cydbwyllgor, sef £350,000. Dywedodd fod yr incwm yn uwch na'r swm y cyllidebwyd ar ei gyfer o ganlyniad i ffioedd amlosgi uwch o £25,000 ac incwm o £7,000 o werthu eitemau.

Adroddodd y Cyfrifydd ar y gyllideb refeniw a gynigir ar gyfer 2018-19, lle cynigiwyd gwarged net o £373,000. Roedd yr holl gyllidebau nad ydynt yn rhai cyflogeion wedi eu hadolygu a'r addasiadau angenrheidiol wedi eu gwneud er mwyn adlewyrchu'r gwariant disgwyliedig ar gyfer 2018-19. Roedd cyllidebau cyflogeion wedi eu haddasu i gynrychioli cynyddrannau ar y raddfa gyflog a chynnwys cynnydd cyflog o 2% yn 2018-19. Dywedodd fod y Cynllun Busnes ar gyfer 2018-19 yn dangos gofyniad cyllidebol o £75,000 i ateb gwariant o £75,000, a thelid am hyn o'r gyllideb Costau Ariannu Cyfalaf. Roedd cyllidebau incwm wedi eu paratoi gan gymryd y bydd cynnydd cyffredinol o 4% yn y ffioedd ar sail y lefelau presennol o 1589 amlosgiad.

Adroddodd y Cyfrifydd ar effaith y balans a oedd wedi cronni ar gyfer rhagfynegiad o gyllideb 2018-19, llerhagfynegwyd balans a oedd wedi cronni o £1,499,000 ar 31 Mawrth 2019. Ystyrid bod hyn yn ddigonol er mwyn cynnal y gwasanaeth o ystyried galw annisgwyl neu argyfyngau.

Dywedodd y Cyfrifydd na fyddai angen benthyciad na chyfraniad gan awdurdodau etholedig ar gyfer y gwariant cyfalaf a châi eitemau gwariant cyfalaf yn 2018-19 eu hariannu'n uniongyrchol gan gyfraniadau refeniw a'r gwarged o flynyddoedd blaenorol.

PENDERFYNWYD 1) Bod y Cydbwyllgor yn cadarnhau ac yn cymeradwyo'r gyllideb refeniw a'r gwariant cyfalaf i'w fabwysiadu yn 2018-2019.
2) Bod y Cydbwyllgor yn cymeradwyo'r cynnydd yn y ffioedd a chostau o 1 Ebrill 2018 fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.

21. EITEMAU BRYS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 14:30